

Offerynnau Statudol Negyddol Arfaethedig sydd ag Adroddiadau Clir - 12 Gorffennaf 2021

Pn(6)001 – Rheoliadau Bwyd a Diod (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021

Y weithdrefn: Negyddol arfaethedig

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r offerynnau statudol a ganlyn mewn perthynas â safonau a labeli bwyd a diod:

- Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014; a
- Rheoliadau Gwlad Tarddiad Cigoedd Penodol (Cymru) 2015

Mae angen y diwygiadau hyn i fynd i'r afael â diffygion sy'n deillio o ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a sicrhau y gall y llyfr statud weithredu'n effeithiol ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gosod at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A.

Y Ddeddf wreiddiol: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Gofynion sifftio wedi'u bodloni: Ydyn

Rydym yn cytuno mai'r weithdrefn penderfyniad negyddol yw'r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn.

